# Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol Cymdeithas Adeiladu'r Principality

**Meini Prawf Cyllid: Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol**

Sefydliad Cymunedol Cymru

Cymdeithas Adeiladu Principality Building Society

Mae Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol Cymdeithas Adeiladu'r Principality yn gronfa ledled Cymru a sefydlwyd mewn partneriaeth â Chymdeithas Adeiladu'r Principality gyda'r nod o gael effaith gadarnhaol ar gymdeithas.

Rydym yn canolbwyntio'n benodol ar wella symudedd cymdeithasol i bobl ifanc yng Nghymru. Symudedd cymdeithasol yw'r gallu i ddatgloi potensial, ehangu gorwelion a chreu cyfleoedd, i sicrhau bod ein pobl ifanc yn cael yr un cyfleoedd i wneud yn dda mewn bywyd waeth beth yw cefndir economaidd-gymdeithasol eu rhieni, eu rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, hil, ethnigrwydd, man geni, neu amgylchiadau eraill y tu hwnt i'w rheolaeth.

Bydd y gronfa hon yn cefnogi mudiadau trydydd sector a chymunedol ledled Cymru i helpu/annog:

- Mwy o bobl ifanc i baratoi ar gyfer dyfodol a byd gwaith (gan gynnwys sgiliau adeiladu),
- Mwy o bobl ifanc i ddysgu am reoli arian ac adeiladu gwytnwch ariannol ar gyfer ansicrwydd bywyd,
- Mwy o bobl ifanc i gael y cymorth iechyd meddwl sydd ei angen arnynt,
- Mwy o bobl ifanc i fyw'n gynaliadwy a chymryd rhan yn diogelu ein hamgylchedd naturiol.

Bydd y prosiectau rydym yn eu cefnogi yn cyd-fynd ag un o'r themâu hyn:

- Datblygu sgiliau hyfforddi a/neu gyflogadwyedd,
- Gwella iechyd meddwl a lles,
- Dysgu sgiliau ariannol (e.e. cynilo a chyllidebu),
- Codi ymwybyddiaeth o effaith ein gweithredoedd ar yr amgylchedd a chadwraeth,
- Cefnogi ymyriadau sy'n helpu disgyblion/myfyrwyr gyda bywyd ysgol a rhoi'r cyfleoedd gorau iddynt lwyddo,
- Cyflwyno gweithdai ar draws unrhyw un o'r themâu uchod e.e. coginio'n iach ar gyllideb, siopa wythnosol clyfar.

Byddwn yn blaenoriaethu sefydliadau a phrosiectau sy'n cynyddu hygyrchedd i'r rhai sy'n cael eu tanwasanaethu neu'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n cefnogi unigolion o gefndiroedd nodwedd gwarchodedig 2010 Deddf Cydraddoldeb ac unigolion o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## Grantiau ar gael

Dyfernir grantiau o hyd at £20,000 y flwyddyn am ddwy flynedd i sefydliadau trydydd sector y mae eu gwaith yn canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc o dan 25 oed.

# Pwy all wneud cais?

Ni fyddwn yn ystyried ceisiadau gan sefydliadau sydd ag incwm o dros £600,000 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Rydym yn croesawu ceisiadau gan sefydliadau nad ydynt erioed wedi derbyn arian o'r Gronfa hon o'r blaen.

Ardal ddaearyddol a gyllidir: Cymru a changhennau'r Principality ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Os ydych chi'n sefydliad sydd wedi'i leoli yng Nghaer, Croesoswallt, Henffordd neu'r Amwythig, archebwch alwad gyda Swyddog Grantiau, fel y gallwn benderfynu a yw eich lleoliad yn gymwys i gael cyllid.

Mae'n rhaid i chi fod yn un o'r canlynol:

- Grwpiau gyda chyfansoddiad
- Elusennau Cofrestredig a Sefydliadau Corfforedig Elusennol
- Cwmni cyfyngedig gan warant
- Cwmnïau buddiannau cymunedol
- Mentrau cymdeithasol

Sylwch nad ydych yn gymwys i wneud cais os oes gennych grant aml-flwyddyn gweithredol o'r gronfa hon a ddyfarnwyd o fewn y 12 mis diwethaf.

# Sut i wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan.

Sylwer:

- Trwy gydol mis Ionawr 2025 mae ymrwymiad i weithio gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality a Sefydliad Cymunedol Cymru i gynhyrchu marchnata a chyfathrebu sy'n dathlu'r Sefydliadau/Grwpiau a ddyfarnwyd.
- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.
- Os dyfernir grant aml-flwyddyn, rhaid gwario'r flwyddyn gyntaf o grant o fewn blwyddyn i dderbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

# Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir.

Mae Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol Principality bellach yn cynnig cyfle i grwpiau wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at ddwy flynedd. Rydym yn rhagweld y bydd 80% o'r ceisiadau a ddyfarnwyd yn derbyn cyllid blwyddyn luosog.

I gael eich ystyried am grant dwy flynedd, cwblhewch yr adrannau cyllideb ychwanegol ar y ffurflen gais. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant dwy flynedd.

Rydym hefyd yn cydnabod yr her o ddod o hyd i gyllid craidd, yn enwedig yn y tymor hir. Gall grwpiau nawr wneud cais am gyllid tuag at gostau craidd am hyd at 2 flynedd, ar yr amod y gall y grŵp ddarparu cyfrifon am o leiaf y 12 mis diwethaf ac mae'r swm y gwneir cais amdano yn llai na 50% o'ch trosiant blynyddol. Er enghraifft, i wneud cais am grant o £10,000 y flwyddyn, dylai eich incwm blynyddol fod o leiaf £20,000.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae’n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio’n well gyda phobl a cymunedau a gyda’i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.




Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw’n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae’u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai’ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau’n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.